# Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019

**2019 dccc 4**

## RHAN 2

DEHONGLI A GWEITHREDU DEDDFWRIAETH CYMRU

*Ystyr geiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn neddfwriaeth Cymru*

### 6 Diffiniadau o eiriau ac ymadroddion

(1) Mae geiriau ac ymadroddion a restrir yn y Tabl yn Atodlen 1 i'w dehongli yn unol â'r Tabl hwnnw pan fônt yn ymddangos mewn Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio Atodlen 1 er mwyn—

(a) mewnosod diffiniadau newydd o eiriau neu ymadroddion;

(b) dileu diffiniadau o eiriau neu ymadroddion;

(c) diwygio diffiniadau o eiriau neu ymadroddion.

(3) Caiff rheoliadau o dan is-adran (2) wneud darpariaeth atodol, darpariaeth gysylltiedig, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth ddarfodol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed, a gaiff gynnwys darpariaeth sy'n diwygio, yn diddymu, yn dirymu neu'n addasu fel arall unrhyw ddeddfiad (pryd bynnag y'i deddfir neu y'i gwneir).

### 7 Mae geiriau yn y ffurf unigol yn cynnwys y ffurf luosog ac fel arall

Mewn Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig—

(a) mae geiriau yn y ffurf unigol yn cynnwys y ffurf luosog;

(b) mae geiriau yn y ffurf luosog yn cynnwys y ffurf unigol.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

**8 Nid yw geiriau sy'n dynodi rhywedd yn gyfyngedig i'r rhywedd hwnnw**

Mewn Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig, nid yw geiriau sy'n dynodi personau o rywedd penodol i'w darllen fel pe baent yn gyfyngedig i bersonau o'r rhywedd hwnnw.

**9 Amrywio geiriau ac ymadroddion oherwydd gramadeg etc.**

Pan fo deddfiad yn rhoi ystyr i air neu ymadrodd mewn Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig, mae rhannau ymadrodd eraill a ffurfiau neu oleddfiadau gramadegol ar y gair neu'r ymadrodd i'w dehongli yn unol â'r ystyr hwnnw.

**10 Cyfeiriadau at amser o'r dydd**

Mae cyfeiriad at amser o'r dydd mewn Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig yn gyfeiriad at amser safonol Greenwich; ond mae hyn yn ddarostyngedig i adran 3 o Ddeddf Amser Haf 1972 (p. 6) (pwyntiau o amser yn ystod amser haf).

**11 Cyfeiriadau at y Sofren**

Mae cyfeiriad at y Sofren mewn Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig i'w ddarllen fel cyfeiriad at y Sofren ar y pryd.

**12 Mesur pellter**

Mae cyfeiriad at bellter mewn Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig yn gyfeiriad at y pellter hwnnw wedi ei fesur mewn llinell syth ar blân llorweddol.